



Y Weinyddiaeth
Gyfiawnder

Ministry
of Justice

Cynllun Iaith Gymraeg y Weinyddiaeth Gyfiawnder

Adroddiad Monitro Blynnyddol 2024-25
i Gomisiynydd y Gymraeg

Rhagfyr 2025

Cynllun Iaith Gymraeg y Weinyddiaeth Gyfiawnder

Adroddiad Monitro Blynnyddol 2024-25 i Gomisiynydd y Gymraeg

Rhagfyr 2025

Rhagymadrodd

Mae'r adroddiad hwn yn ymdrin â'r cyfnod rhwng 1 Ebrill 2024 a 31 Mawrth 2025 ac mae'n hunanasesiad o sut mae'r Weinyddiaeth Gyfiawnder wedi parhau i gyflawni'r ymrwymadau yn ei Chynllun Iaith Gymraeg (Cynllun y Weinyddiaeth Gyfiawnder) yn ystod y cyfnod hwn.

Mae Cynllun y Weinyddiaeth Gyfiawnder (MoJ) yn amlinellu sut mae'r Weinyddiaeth Gyfiawnder yn gweithredu'r egwyddor yn Adran 5 o Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993, sef y dylid trin y Gymraeg a'r Saesneg yn gyfartal wrth gynnal busnes cyhoeddus a gweinyddu cyfiawnder yng Nghymru. Mae'n galluogi pawb sy'n cael gwasanaeth gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder yng Nghymru, neu sy'n cyfathrebu â ni, i wneud hynny drwy gyfrwng y Gymraeg neu'r Saesneg, yn dibynnu ar eu dewis personol.

Mae Cynllun y Weinyddiaeth Gyfiawnder yn gynllun corfforaethol sy'n cwmpasu meysydd datblygu polisi, recriwtio a darparu gwasanaethau i'r cyhoedd yn ei bencadlys corfforaethol.

Mae gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder bum Asiantaeth Weithredol (EA) sy'n gyfrifol am ddarparu'r mwyafrif o'i wasanaethau i'r cyhoedd. Mae gan bob un o'i Asiantaethau Gweithredol ei Gynllun Iaith Gymraeg ei hun sy'n sicrhau darpariaeth o wasanaethau iaith Gymraeg sydd naill ai'n gyfwerth neu'n rhagori arni o'i gymharu â Chynllun yr MoJ. Gan fod pob Asiantaeth Weithredol hefyd yn adrodd i Gomisiynydd y Gymraeg bob blwyddyn, nid yw'r wybodaeth hon yn cael ei hailadrodd yma oni bai ei bod yn berthnasol i adroddiadau corfforaethol y Weinyddiaeth Gyfiawnder.

Crynodeb o'n cyflawniadau

Dyma rai o'r pethau a gyflawnwyd yn ystod 2024-25:

- Mae ymgynghoriadau'r Weinyddiaeth Gyfiawnder ar gael yn Gymraeg ar Hyb Ymgynghori'r MoJ ar ein tudalennau GOV.UK 'corfforaethol' ac ar dudalennau 'cyffredinol' GOV.UK
- Bu inni hysbysebu 284 o ymgyrchoedd recriwtio staff lle cyfeirir at y Cynllun Iaith Gymraeg a lle mae'r gofynion iaith yn nodi bod y gallu i ddefnyddio'r Gymraeg yn ddymunol neu'n hanfodol.
- Darparodd y Coleg Barnwrol 131 o ddigwyddiadau hyfforddiant yng Nghymru i 1,086 o ynadon, gan gynnwys 50 sesiwn cynefino i 379 o ynadon newydd eu penodi.
- Mae gallu staff y Weinyddiaeth Gyfiawnder i siarad Cymraeg ar system casglu data staff mewnol, SOP, yn dal i gael ei gofnodi.
- Cofnododd GLITEF 286 o achosion yn y flwyddyn adrodd lle defnyddiwyd y Gymraeg.

- Mae Pwyllgorau Ymgynghorol yr Ynadaeth wedi parhau i annog ceisiadau gan siaradwyr Cymraeg, yn enwedig ar draws Gogledd a Gorllewin Cymru.
- Roedd y Cynllun Cyfryngwyr Tystion yn parhau i ddarparu Cyfryngwyr Cofrestredig sy'n siarad Cymraeg ar gais.
- Rydym wedi cynnal ein gwefan tudalen hafan Gymraeg sydd ar gael yma: <https://www.gov.uk/government/organisations/ministry-of-justice.cy>
- Mae Grŵp Cydlynwyr Cymraeg yr MoJ, sy'n cyfarfod dwywaith y flwyddyn, wedi parhau i weithredu ac mae'n cwmpasu ehangder llawn meysydd busnes MoJ.
- Bu inni gefnogi'r 'rhaglen Cymraeg Gwaith' a ariennir gan Lywodraeth Cymru sy'n cynnig cyrsiau Cymraeg i staff.
- I gefnogi ein Prawf Effaith ar y Gymraeg ar gyfer swyddogion polisi, cyfieithodd Uned Iaith Gymraeg GLITEF a thebigword 69 o ddogfennau polisi corfforaethol.

Cynnydd wrth gyflawni'r Cynllun Gweithredu

Mae'r wybodaeth ddiweddaraf ynghylch ein cynnydd o ran cyflawni ein camau gweithredu parhaus yng nghyswllt y Cynllun Iaith Gymraeg i'w gweld isod er mwyn helpu i ddangos sut rydym yn cydymffurfio.

1. Datblygu a gweithredu polisi

Meini prawf llwyddiant:

- Gwella ymwybyddiaeth staff; gyda gofynion y Cynllun Iaith yn cael eu hystyried yn y broses o gaffael a llunio polisiau.*
- Mae staff polisi, dadansoddi a chyfreithiol yn ystyried goblygiadau o ran yr iaith Gymraeg yn gyson wrth ddatblygu polisiau ac ymgynghori.*

Ymgynghoriadau'r Weinyddiaeth Gyfiawnder

Yn ystod cyfnod adrodd 2024-25, cynhaliodd y Weinyddiaeth Gyfiawnder nifer o ymgynghoriadau yn Gymraeg a chyhoeddi ymatebion yn Gymraeg fel a ganlyn:

Diwygio Ardaloedd Cyfiawnder Lleol

Cafodd ymgynghoriad ar y cyd y Weinyddiaeth Gyfiawnder / Swyddfa Farnwrol ei gyfieithu'n llawn (Mawrth 2025) ar safle prif ffrwd GOV.UK a hyb ymgynghorol corfforaethol yr MoJ.

Goruchwyliaeth a rheoliadau erlynwyr preifat yn y system cyfiawnder troseddol

Cafodd yr ymgynghoriad ei gyfieithu'n llawn (Mawrth 2025) ar safle cyffredinol GOV.UK.

Cymorth cyfreithiol sifil: tuag at ddyfodol cynaliadwy

Cyfieithwyd yr ymgynghoriad yn llawn (Ionawr 2025) ar safle cyffredinol GOV.UK.

Adolygiad Dedfrydu Annibynnol 2024 i 2025

Cafodd crynodeb gweithredol a set o gwestiynau ar gyfer y Cais hwn am Dystiolaeth ei gyfieithu (Tachwedd 2024) ar safle cyffredinol GOV.UK.

Mynediad at Gyfiawnder mewn perthynas â'r Confensiwn Aarhus

Cafodd crynodeb gweithredol o'r Cais hwn am Dystiolaeth ei gyfieithu (Mai 2024) ar safle cyffredinol GOV.UK a hyb ymgynghorol MoJ.

Cyfraith cyfyngiadau mewn achosion cam-drin plant yn rhywiol

Cafodd ymgynghoriad y Weinyddiaeth Gyfiawnder ei gyfieithu'n llawn (Mai 2024) ar safle cyffredinol GOV.UK a hyb ymgynghorol corfforaethol y Weinyddiaeth Gyfiawnder. Roedd crynodeb gweithredol o'r ymateb i'r ymgynghoriad (Chwefror 2025) yn y Gymraeg ar safle cyffredinol GOV.UK.

Siaradwyr Cymraeg

Rydym wedi parhau i gofnodi gallu staff y Weinyddiaeth Gyfiawnder ar y system SOP sy'n cadw data staff trwy gwestiwn gwirfoddol yn gofyn a all staff siarad Cymraeg ar lefel sylfaenol neu rugl. Mae hyn wedi helpu'r Weinyddiaeth Gyfiawnder i gynnal sylfaen dystiolaeth ar gyfer staff sy'n siarad Cymraeg ac mae'n cyfrannu at darged Llywodraeth Cymru o filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.

Mae'r Weinyddiaeth Gyfiawnder yn parhau i gefnogi rhaglen Cymraeg Gwaith Llywodraeth Cymru sy'n ceisio gwella sgiliau Cymraeg ein staff yng Nghymru. Rydym yn parhau i gydnabod pwysigrwydd annog yr holl staff mewn rolau gweithredol a chorfforaethol i ystyried hyfforddiant yn y Gymraeg.

Mae'r Weinyddiaeth Gyfiawnder yn mynd ati i hyrwyddo Rhwydwaith Cymraeg y Gwasanaeth Sifil, sy'n rhan o Rwydwaith Ieithoedd y Gwasanaeth Sifil. Fe'i cynlluniwyd ar gyfer gweision sifil sy'n gallu siarad Cymraeg neu sy'n awyddus i ddysgu ac sydd â diddordeb mewn deialog ryngddiwylliannol. Mae'r Rhwydwaith hefyd yn darparu cymorth ar brosiectau arbennig yn y llywodraeth sydd angen sgiliau iaith cadarn a gwybodaeth ryngddiwylliannol. Am fwy o wybodaeth, cysylltwch â cslocalcymruwales@cabinetoffice.gov.uk

2. Recriwtio

Meini prawf llwyddiant:

- Mae system effeithiol ar waith i fonitro'r modd y mae'r Weinyddiaeth Gyfiawnder yn recriwtio staff ac yn penodi'r farnwriaeth er mwyn gwneud yn siŵr bod yr ymrwymadau yn y Cynllun Iaith Gymraeg yn cael eu bodloni.*
- Mae achosion llys yn cael eu cynnal yn Gymraeg pan fydd angen.*
- Mae agwedd gyson at y Gymraeg wrth recriwtio ynadon a barnwyr.*
- Mae'r system recriwtio newydd yn cydymffurfio â gofynion Comisiynydd y Gymraeg a deddfwriaeth..*

Staff

Meini prawf llwyddiant:

- Mae system effeithiol ar waith i fonitro'r modd y mae'r Weinyddiaeth Gyfiawnder yn recriwtio staff ac yn penodi barnwyr er mwyn gwneud yn siŵr bod yr ymrwymadau yn y Cynllun Iaith Gymraeg yn cael eu bodloni.*
- Mae'r system recriwtio newydd yn cydymffurfio â gofynion a deddfwriaeth Comisiynydd y Gymraeg.*

Yn ystod y flwyddyn adrodd, rydym wedi hysbysebu chwech ymgyrch ble roedd y Gymraeg yn hanfodol a 278 ymgyrch ble roedd gofynion iaith yn nodi bod y Gymraeg yn ddymunol. O 1 Ebrill 2025, derbyniwyd 337 o gynigion ffurfiol yn yr ymgyrchoedd hyn lle mae'r iaith Gymraeg yn ddymunol neu'n hanfodol. O'r 337 cynnig ffurfiol hyn, roedd 51 yn siaradwyr Cymraeg. O'r 51 o siaradwyr Cymraeg, derbyniodd 4 ymgeisydd gynnig ffurfiol o ymgyrch ble roedd y Gymraeg yn hanfodol, a derbyniodd 47 gynnig ffurfiol o ymgyrch ble roedd y Gymraeg yn ddymunol.

Achosion llys

Meini prawf llwyddiant:

b) Mae achosion llys yn cael eu cynnal yn Gymraeg pan fydd angen.

Drwy fynd ati'n effeithiol i ddod o hyd i farnwyr ac ynadon Cymraeg eu hiaith, a'u recriwtio ar ôl hynny, gellir cynnal achosion llys yn Gymraeg pan fydd angen. Yn ystod y flwyddyn adrodd, cofnododd GLITEF 286 o achosion lle defnyddiwyd y Gymraeg.

Mae'r cyfanswm wedi'i ddadansoddi fel a ganlyn:

Achosion llys sy'n cynnwys y Gymraeg	Ffigurau
Llys Ynadon (ddim yn bresennol)	19
Llys Ynadon (yn bresennol)	77
Llysoedd Sifil	154
Tribiwnlysoedd	10
Llys y Goron	24
Llys Gwarchod	2

Y farnwriaeth

Meini prawf llwyddiant:

c) Mae agwedd gyson at y Gymraeg wrth recriwtio ynadon a barnwyr.

Roedd yr ymarferion dethol canlynol wedi nodi swyddi gwag yng Nghymru lle roedd y Gymraeg yn ofyniad hanfodol yn ogystal â phrofi dealltwriaeth yr ymgeiswyr o weinyddu cyfiawnder yng Nghymru:

- **Barnwr sy'n Derbyn Ffi - Y Tribiwnlys Haen Gyntaf a Barnwr sy'n Derbyn Ffi - Tribiwnlysoedd Cyflogaeth (Cymru a Lloegr) (00117).** Lanswyd yr ymarfer ar y cyd hwn ar 21 Mawrth 2023. Cafodd y rhan fwyaf o'r argymhellion hyn eu cynnwys yn adroddiad 2023-24. Fodd bynnag, yn dilyn cais pellach, argymhellwyd penodi dau ymgeisydd ychwanegol i ddwy swydd iaith Gymraeg ar gyfer Barnwr sy'n derbyn ffi yn y Tribiwnlys Cyflogaeth (Cymru a Lloegr). Golygai hyn fod cyfanswm o 52 o ymgeiswyr wedi'u hargymhell ar gyfer rôl Barnwr sy'n derbyn ffi yn y Tribiwnlys Cyflogaeth (Cymru a Lloegr).

Canfu'r ymarferion dethol canlynol swyddi gwag yng Nghymru nad oedd â gofynion o ran y Gymraeg, ond a oedd yn profi dealltwriaeth ymgeiswyr o weinyddu cyfiawnder yng Nghymru. Sylwer mai'r farnwriaeth sy'n gwneud penderfyniadau lleoli:

- **Cofiadur (00162).** Lansiwyd yr ymarfer cenedlaethol ar gyfer Cofiadur ar 15 Mehefin 2023 gyda 100 swydd wag. Cafodd yr ymgeiswyr hynny a oedd â diddordeb mewn swydd yng Nghymru eu hasesu ar eu dealltwriaeth o weinyddu cyfiawnder yng Nghymru. Argymhellwyd cyfanswm o 100 o ymgeiswyr i'w penodi, ac argymhellwyd fod wyth ymgeisydd yn addas i'w penodi i swyddi yng Nghymru.
- **Barnwr Cylchdaith (00171).** Lansiwyd yr ymarfer cenedlaethol ar 18 Gorffennaf 2023 gyda 52 o swyddi gwag ledled Cymru a Lloegr. Cafodd yr ymgeiswyr hynny a oedd â diddordeb mewn swydd yng Nghymru eu hasesu ar eu dealltwriaeth o weinyddu cyfiawnder yng Nghymru. Argymhellwyd cyfanswm o 42 o ymgeiswyr, gydag un ymgeisydd wedi'u hargymell fel ymgeiswyr addas ar gyfer swyddi yng Nghymru.
- **Barnwr Rhanbarth (00172).** Lansiwyd yr ymarfer cenedlaethol ar 7 Medi 2023 gyda 100 o swyddi gwag i'w llenwi ledled Cymru a Lloegr. Cafodd yr ymgeiswyr hynny a oedd â diddordeb mewn swyddi yng Nghymru eu hasesu ar eu dealltwriaeth o weinyddu cyfiawnder yng Nghymru. Argymhellwyd cyfanswm o 51 o ymgeiswyr, gyda thri ymgeisydd wedi'u hargymell fel ymgeiswyr addas ar gyfer swyddi yng Nghymru.
- **Dirprwy Farnwr Rhanbarth (00184).** Lansiwyd yr ymarfer cenedlaethol ar gyfer Dirprwy Farnwr Rhanbarth ar 19 Mawrth 2024 gyda 125 o swyddi gwag ar unwaith ledled Cymru a Lloegr a chais ychwanegol am 30 o swyddi gwag posibl yn y dyfodol. Cafodd yr ymgeiswyr hynny a oedd â diddordeb mewn swydd yng Nghymru eu hasesu ar eu dealltwriaeth o weinyddu cyfiawnder yng Nghymru. Argymhellwyd cyfanswm o 123 o ymgeiswyr i'w penodi, ac argymhellwyd fod pump ymgeisydd yn addas i'w penodi i swyddi yng Nghymru, yn ystod y cyfnod adrodd hwn. Bydd ymgeiswyr ychwanegol ar gyfer llenwi'r ddwy swydd sy'n weddill yn cael eu cynnwys yn y flwyddyn adrodd nesaf.
- **Barnwr Rhanbarth (Llys Ynadon) (00185).** Lansiwyd yr ymarfer cenedlaethol ar 19 Mawrth 2024 gyda 30 o swyddi gwag ledled Cymru a Lloegr. Cafodd yr ymgeiswyr hynny a oedd â diddordeb mewn swydd yng Nghymru eu hasesu ar eu dealltwriaeth o weinyddu cyfiawnder yng Nghymru. Argymhellwyd cyfanswm o 25 o ymgeiswyr i'w penodi, gyda dau ymgeisydd wedi'u hargymell yn addas ar gyfer swyddi yng Nghymru.
- **Barnwr Preswyl y Tribiwnlys Haen Gyntaf, Siambr Mewnfudo a Lloches (00215).** Lansiwyd yr ymarfer hwn ar gyfer Barnwr Preswyl y Tribiwnlys Haen Gyntaf ar 26 Medi 2024 gyda phedair swydd wag, ac roedd un ohonynt wedi'i lleoli yng Nghymru. Cafodd yr ymgeiswyr hynny a oedd â diddordeb yn y swydd yng Nghymru eu hasesu ar eu dealltwriaeth o weinyddu cyfiawnder yng Nghymru. Argymhellwyd tri ymgeisydd i'w penodi, gan gynnwys yr un swydd yng Nghymru gydag un ymgeisydd wedi'i argymell fel ymgeisydd addas ar gyfer swydd yng Nghymru.
- **Dirprwy Gadeirydd ar gyfer Tribiwnlys Tir Amaethyddol Cymru (00221).** Lansiwyd yr ymarfer hwn ar 22 Mai 2024 gyda phedair swydd wag, gyda phob un yng Nghymru. Cafodd pob ymgeisydd eu hasesu ar eu dealltwriaeth o weinyddu cyfiawnder yng Nghymru. Argymhellwyd bod tri ymgeisydd yn addas ar gyfer eu penodi i'r swyddi hyn.

Roedd yr ymarferion dethol canlynol wedi nodi swyddi gwag yng Nghymru lle nad oedd y Gymraeg yn ofyniad hanfodol ac nid oedd yn profi dealltwriaeth yr ymgeiswyr o weinyddu cyfiawnder yng Nghymru:

- **Aelodau Cymwys yn Ariannol o'r Tribiwnlys Haen Gyntaf sy'n Derbyn Ffi, Siambr Hawl Cymdeithasol (00209).** Lansiwyd yr ymarfer cenedlaethol ar 9 Gorffennaf 2024 ar gyfer 18 o swyddi gwag ar draws yr holl ranbarthau, gyda dau ohonynt wedi'u lleoli yn rhanbarth De-orllewin Lloegr a Chymru. Argymhellwyd cyfanswm o 10 ymgeisydd i'w penodi, ond ni argymhellwyd unrhyw ymgeiswyr i'w penodi i'r ddwy swydd yn rhanbarth De-orllewin Lloegr a Chymru.

Mae Adran 83 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 yn caniatáu i Lywodraeth Cymru ofyn am gymorth gan gyrff cyhoeddus eraill. Rhoddodd y JAC gymorth i Lywodraeth Cymru gyda'r ymarfer canlynol:

- **Llywydd Tribiwnlys y Gymraeg (00193)** – Lansiwyd yr ymarfer ar 13 Mawrth 2024 gydag un swydd wag yng Nghymru. Roedd y Gymraeg yn ofyniad hanfodol ar gyfer un swydd yn yr ymarfer dethol ar gyfer Llywydd Tribiwnlys y Gymraeg. Cafodd pob ymgeisydd eu hasesu ar eu gallu o ran y Gymraeg a'u dealltwriaeth o weinyddu cyfiawnder yng Nghymru. Argymhellwyd bod un ymgeisydd yn addas ar gyfer ei benodi i'r swydd hon.
- **Llywydd Tribiwnlys Eiddo Preswyl Cymru (00224).** Lansiwyd yr ymarfer hwn ar 16 Mai 2024 gydag un swydd wag yng Nghymru. Cafodd pob ymgeisydd eu hasesu ar eu dealltwriaeth o weinyddu cyfiawnder yng Nghymru. Argymhellwyd bod cyfanswm o un ymgeisydd yn addas ar gyfer ei benodi i'r swydd hon.
- **Aelodau Proffesiynol y Tribiwnlys Eiddo Preswyl yng Nghymru (00226).** Lansiwyd yr ymarfer hwn ar 26 Medi 2024 gyda 10 swydd wag, gyda phob un yng Nghymru. Cafodd y gofyniad i asesu dealltwriaeth ymgeiswyr o weinyddiaeth cyfiawnder yng Nghymru ei hepgor ar gyfer yr ymarfer hwn. Argymhellwyd cyfanswm o dri ymgeisydd i'w penodi i'r swyddi hyn.

D.S. Er bod ymarferion dethol fel arfer wedi dechrau cyn y flwyddyn adrodd, rhoddwyd gwybod i'r Swyddfa Farnwrol am ganlyniad yr ymarferion yn ystod y flwyddyn adrodd. Mae hyn yn adlewyrchu'r dull gweithredu a ddilynir yn Adroddiad Blynyddol y Comisiwn Penodiadau Barnwrol.

Y Coleg Barnwrol

Yr Arglwyddes Brif Ustus, Uwch Lywydd y Tribiwnlysoedd a'r Prif Grwner sydd â chyfrifoldeb statudol ar gyfer hyfforddi'r farnwriaeth, i gadw annibyniaeth farnwrol. Mae'r cyfrifoldebau hyn yn cael eu harfer drwy'r Coleg Barnwrol.

Mae [strategaeth y Coleg Barnwrol 2021-25](#) yn gosod uchelgais ac amcanion cyffredinol dros y cyfnod hwn o pedair blynedd. Mae'r strategaeth yn cynnwys ymrwymadau i barhau i gefnogi hyfforddiant Cymraeg ar gyfer y farnwriaeth a bodloni anghenion hyfforddiant mewn deddfwriaeth sy'n benodol i Gymru wrth iddynt godi. Caiff yr ymrwymadau hyn eu goruchwyllo gan Bwyllgor Hyfforddiant Cymru o'r Coleg Barnwrol, o dan gadeiryddiaeth Mr Ustus Griffiths, sydd hefyd yn aelod o'r Bwrdd Coleg Barnwrol. Mae Pwyllgor Hyfforddiant Cymru yn adrodd yn uniongyrchol i'r Bwrdd Coleg Barnwrol, sy'n nodi cyfeiriad strategol y Coleg, yn goruchwyllo darpariaeth y rhaglen hyfforddiant llawn ac mae'n cynnwys cyfrifoldebau trosfwaol o waith y Coleg ar ran yr Arglwyddes Brif Ustus, yr Uwch Lywydd Tribiwnlysoedd a'r Prif Grwner.

2024/25 oedd y flwyddyn hyfforddiant llawn gyntaf ble roedd y Coleg yn gyfrifol am ddarparu holl hyfforddiant ynadon, ar ôl derbyn cyfrifoldebau ychwanegol gan GLITEF. Darparodd y Coleg 131 o ddigwyddiadau hyfforddiant yng Nghymru i 1,086 o ynadon yn ystod y flwyddyn. Roedd hyn yn cynnwys 50 sesiwn sefydlu ar gyfer 379 o ynadon newydd eu penodi.

Cynhaliwyd seminar y Gymraeg gan y Coleg Barnwrol yn Llandudno ar 5 Mawrth 2025 gyda 50 o ynadon yn bresennol. Roedd yn cynnwys sesiynau ar statws gyfreithiol y Gymraeg mewn llysoedd, gan nodi a goresgyn rhwystrau i siarad Cymraeg, darparu gwasanaethau yn rhagweithiol yn y Gymraeg (y "cynnig gweithredol") a chefnogaeth ac adnoddau Cymraeg. Roedd y cwrs wedi rhagori ar y meincnodau o 90% o adborth cadarnhaol ar gyfer bodloni amcanion a chanlyniadau bod y cwrs yn ddefnyddiol i'r rôl farnwrol.

Mae'r Coleg Barnwrol wedi dyblu amllder seminarau'r Gymraeg i'r farnwriaeth yng Nghymru o bob dwy flynedd i unwaith y flwyddyn. Mae'r seminar presennol, fel y darperir yn 2024/25 wedi'i anelu at yr ystod lawn o siaradwyr Cymraeg mewn swydd farnwrol, gan gynnwys y rhai gyda rhywfaint o sgiliau Cymraeg a'r sawl sy'n gallu cynnal gwrandawriad yn y Gymraeg. Bydd y seminar ychwanegol yn canolbwyntio ar anghenion dysgu siaradwyr Cymraeg uwch gyda'r gallu i gynnal gwrandawriadau yn y Gymraeg, er mwyn cryfhau cydymffurfiaeth gyda chyfrifoldebau statudol mewn perthynas â'r Gymraeg.

Mae'r Coleg yn cynnig llyfrgell Cymru ar ei blatfform dysgu ar-lein. Mae'r llyfrgell yn cynnwys deunyddiau hyfforddiant digidol a chanllawiau ar gyfer deiliaid swydd farnwrol yng Nghymru, gan gynnwys gwybodaeth am y Gymraeg yn y system gyfiawnder.

Mae datblygiadau yn 2024/25 yn cynnwys ychwanegu adnoddau newydd i gefnogi'r hawl i siarad Cymraeg yn y llys ac mewn achosion tribiwnlys.

Mae'r Coleg yn gyfrifol am Lyfr Triniaeth Gyfartal y Fainc (ETBB), sy'n bodoli i helpu deiliaid swydd farnwrol hwyluso proses llys neu dribiwnlys sy'n parchu amgylchiadau a gofynion gwahanol bobl. Mae'r ETBB (diweddarwyd ym mis Gorffennaf 2024) yn darparu canllawiau am y Gymraeg, gan gynnwys mewn perthynas â'r hawl i siarad Cymraeg a'r defnydd o gyfieithwyr ar y pryd arbenigol unigryw. Mae'r ETBB hefyd yn pwysleisio pwysigrwydd parchu enwau personol a lleoedd Cymraeg.

Pwyllgorau Cyngori a phenodiadau i'r Ynadaeth

Mae thema ganolog Pwyllgorau Ymgynghorol yr Arglwydd Ganghellor ar Recriwtio ar gyfer Gogledd a De Cymru yn sicrhau bod yr Ynadaeth yn adlewyrchu cymunedau'n gyffredinol yng Nghymru. Er mwyn cyflawni hyn, mae'r Pwyllgorau Ymgynghorol Recriwtio yng Ngogledd a De Cymru yn ceisio recriwtio o gefndir amrywiol. Un o'r themâu allweddol yw sicrhau bod siaradwyr Cymraeg yn cael eu cynrychioli o fewn y Farnwriaeth yng Nghymru.

Defnyddir y Gymraeg mewn llysoedd ar draws Cymru ond mae'r defnydd o'r Gymraeg yn fwy cyffredin mewn ardaloedd ble siaredir Cymraeg gan y ganran uchaf o'r boblogaeth (fel Gogledd-orllewin Cymru). Fodd bynnag, dylid ystyried bod yr ardaloedd gyda'r gyfran uchaf o siaradwyr Cymraeg (fel Gogledd Orllewin Cymru, a Gorllewin Cymru) hefyd yn ardaloedd gyda lefelau cymharol isel o gyfanswm y boblogaeth. I'r gwrthwyneb, mae ardaloedd (fel De Ddwyrain Cymru) gyda chyfran is o siaradwyr Cymraeg y rhai â'r lefelau uchaf o gyfanswm poblogaeth (gan gynnwys Caerdydd a'r cyn ardaloedd diwydiannol De-ddwyrain Cymru). Felly, er bod y gyfran o siaradwyr Cymraeg yn is yn Ne Ddwyrain Cymru, mae'r nifer o siaradwyr Cymraeg yn parhau'n sylweddol. Yng Ngogledd Ddwyrain Cymru, mae'r gyfran o siaradwyr Cymraeg yn gymharol isel, ac mae dwysedd y boblogaeth hefyd yn gymharol isel.

Nodwyd dros y blynyddoedd diwethaf bod gostyngiad wedi bod yn nifer y ceisiadau llwyddiannus gan siaradwyr Cymraeg i fod yn ynadon.

Yn ystod y cyfnod hwn, mae nifer y ceisiadau i ymuno â'r ynadaeth wedi aros yn gyson, felly nid oes prinder ynadon yng Nghymru. Mae'r gostyngiad hwn mewn ceisiadau llwyddiannus gan Ynadon Cymraeg wedi effeithio ar ganran gyffredinol yr ynadon sy'n siarad Cymraeg. Mae'r ffigwr ar draws Cymru yn dangos gostyngiadau bach dros y cyfnod hwn o'i gymharu â'r 18 mis blaenorol mewn tair o'r Ardaloedd Cyfiawnder Lleol (LJA) - Sir Gaerfyrddin, Gogledd-ddwyrain Cymru a Gwent. Mewn LJAs eraill mae'r ganran o siaradwyr Cymraeg wedi aros yn gyson, er enghraifft Ceredigion a Sir Benfro, a Sir Drefaldwyn. Mae tair o'r LJAs Caerdydd, Canolbarth Cymru a Gorllewin Morgannwg wedi gweld cynnydd bach dros y 18 mis diwethaf o ynadon sy'n siarad Cymraeg gyda'r cynnydd mwyaf sylweddol yng Ngorllewin Morgannwg.

Mae gwaith yn parhau i gynyddu'r nifer o Ynadon Llywyddol sy'n siarad Cymraeg ym mhob Awdurdodaeth. Mae Pwyllgorau Ymgynghorol yr Arglwydd Ganghellor yng Ngogledd Cymru a De Cymru wedi parhau i annog siaradwyr Cymraeg i ymgeisio yn enwedig ar draws Gogledd a Gorllewin Cymru. I gefnogi hyn, mae'r pwyllgor wedi bod yn gweithio gyda'r Swyddfa Farnwrol i ddatblygu deunyddiau marchnata gan gynnwys taflenni a phosteri. Mae'r pwyllgor yn ymwneud â gwaith parhaus y broses ymgeisio ar-lein sydd ar gael yn Gymraeg.

https://magistrates.judiciary.uk/cymraeg/?sType=magistrates_website

Mae Pwyllgorau Ymgynghorol yr Arglwydd Ganghellor yng Ngogledd Cymru a De Cymru wedi bod yn gweithio mewn partneriaeth gyda'r Pwyllgor Sefydlog ar y Gymraeg (SCOWL) i amlygu'r her o annog mwy o geisiadau gan Ynadon sy'n siarad Cymraeg.

Yn ystod ymgyrchoedd recriwtio, mae'r Uned Iaith Gymraeg wedi parhau i gefnogi Pwyllgorau Ymgynghorol yr Arglwydd Ganghellor yng Ngogledd Cymru a De Cymru drwy ddefnyddio eu cyfrif x/Twitter a ail anfonwyd gan unigolion/grwpiau eraill. Parheir i gynrychioli'r ynadaeth mewn digwyddiadau fel yr Eisteddfod.

Bu cynnydd yn nifer y ceisiadau Cymraeg, wnaeth drosi i gynnydd bach yn nifer yr ymgeiswyr a argymhellir ar gyfer eu penodi. Yn ystod 24-25 cafodd cyfanswm o 6 o Ynadon sy'n siarad Cymraeg eu recriwtio (4 trosedd a 2 teulu) o'i gymharu â ffigwr ym mis Chwefror 2024 o 4 Ynad (2 trosedd a 2 teulu).

Lansiodd Pwyllgor Ymgynghorol yr Arglwydd Ganghellor Gogledd Cymru a De Cymru ymgyrch ym mis Medi 2025 ar gyfer Ynadon Llys Oedolion a bydd yn lansio dau ymgyrch arall ym mis Mawrth 2026 a mis Hydref 2026 ar gyfer Ynadon Llys Oedolion gyda'r nod o gynyddu'r nifer o geisiadau gan siaradwyr Cymraeg. Yn yr un modd, cynhelir ymgyrch ar gyfer y Llys Teulu ym mis Mawrth 2026.

Mae rôl yr iaith Gymraeg a'r fframwaith Statudol wedi'i amlygu fel rhan o'r adborth ar yr ymgynghoriad ar newidiadau i Ardaloedd Cyfiawnder Lleol.

<u>Ardal Cyfiawnder Lleol</u>	<u>Canran yr ynadon oedd yn siarad Cymraeg ym mis Mawrth 2025</u>
Sir Drefaldwyn	8%
Ceredigion a Sir Benfro	19%
Sir Gaerfyrddin	34%
Canol Gogledd Cymru	16%
Gogledd-orllewin Cymru	55%
Gogledd-ddwyrain Cymru	6%
Caerdydd	4%
Canolbarth Cymru	6%
Gwent	2%
Gorllewin Morgannwg	9%

Cyfyngwyr Cofrestredig

Drwy gydol y flwyddyn adrodd, parhaodd y Cynllun Cyfyngwyr Tystion (WIS) i gyflenwi Cyfyngwyr Cofrestredig sy'n siarad Cymraeg (RI). Am y chweched flwyddyn yn olynol, roedd y Cynllun wedi arwain at y nifer uchaf o geisiadau, gyda RIs yn cynorthwyo bron i 10,000 o achosion yng Nghymru a Lloegr, ac roedd 721 ohonynt o fewn pedair ardal yr heddlu (PFAs) yng Nghymru. Roedd 696 (97%) o'r ceisiadau wedi eu cyfateb yn llwyddiannus, ni chafodd 13 cais eu cyfateb a chafodd 12 eu canslo. Gwnaethom lwyddo i gyfateb 4 cais penodol am RI sy'n siarad Cymraeg.

Mae cyfyngwyr cofrestredig sy'n siarad Cymraeg yn parhau i weithredu ar draws pob PFA yng Nghymru. Ar hyn o bryd mae 4 RI sy'n siarad Cymraeg, a 51 RI arall sy'n derbyn achosion mewn PFAs yng Nghymru. Mae'r galw am gyfyngwyr cofrestredig yng Nghymru yn cael ei fonitro fel mater o drefn ac mae'r MoJ wedi cymryd camau i sicrhau bod ceisiadau penodol am gyfyngwyr cofrestredig sy'n siarad Cymraeg yn cael eu cofnodi a bod data am y defnydd o gyfyngwyr cofrestredig sy'n siarad Cymraeg ar gael ar gais.

Mae strategaeth recriwtio WIS Y Weinyddiaeth Gyfiawnder yn parhau i dargedu rhanbarthau lle mae dadansoddiad yn dangos bod angen cyfyngwyr cofrestredig fwyaf. Mae sgiliau Cymraeg yn cael eu hystyried ac rydym wedi ymrwmo i sicrhau bod anghenion dioddefwyr a thystion sy'n siarad Cymraeg yn cael eu diwallu.

3. Darparu gwasanaethau i'r cyhoedd

Meini prawf llwyddiant:

- a) *Dim cwynion gan gwsmeriaid yng Nghymru ynglŷn â diffyg eglurder o ran ymdrin â gohebiaeth Gymraeg.*
- b) *Dogfennau'n cael eu cyfieithu i'r Gymraeg yn briodol.*
- c) *Gohebiaeth Gymraeg yn cael ei hateb yn Gymraeg o fewn yr un amserlenni ag unrhyw ohebiaeth arall.*

Gohebiaeth

Mae'r MoJ yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg. Pan fydd rhywun yn ysgrifennu atom yn Gymraeg, byddwn yn ateb yn Gymraeg o fewn yr un amserlenni â'r Saesneg.

Yn ystod cyfnod adrodd 2024-2025, ni dderbyniodd Tîm Cymorth a Gohebiaeth Gweinidogol y Weinyddiaeth Gyfiawnder yr un darn o ohebiaeth yn Gymraeg, naill ai ar-lein nac ar ffurf copi caled. Mae swyddogion yn parhau i fonitro lefelau'r ohebiaeth Gymraeg a dderbynnir gan y Tîm Cymorth a Gohebiaeth Gweinidogol, ac mae staff wedi cael eu hatgoffa i gadw cofnod o unrhyw ohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg ar y gronfa ddata. Mae hyn yn cynnwys copïau caled a anfonir drwy'r post neu ohebiaeth electronig dros e-bost.

Mae staff gohebiaeth ar draws yr MoJ wedi cael eu hatgoffa hefyd bod angen ateb unrhyw ohebiaeth sy'n dod i law yn y Gymraeg yn y Gymraeg.

Galwadau ffôn

Meini prawf llwyddiant:

- d) *Bydd galwadau ffôn gan siaradwyr Cymraeg yn cael eu hateb yn Gymraeg yn y cyswllt cyntaf.*

Mae Llinell Ymholiadau Cyhoeddus (PEL) yr MoJ yn rhan o Ganolfan Profiad Cwsmer SSCL yn Ne Cymru sy'n delio â galwadau gan y cyhoedd neu randdeiliaid allanol sy'n dymuno cysylltu â'r adran neu gael mynediad at wasanaethau eraill fel y rhai a ddarperir gan GLITEF, Uned y Crwner a Swyddfa'r Wasg.

Er nad ydym yn hysbysebu unrhyw ddewisiadau iaith i'r rheini sy'n galw; os bydd rhywun yn dymuno siarad Cymraeg yn unig, gall y PEL ddelio â'r cais oherwydd bod gan dîm y ganolfan alw Cydwasanaethau 20 siaradwr Cymraeg rhugl.

Yn ystod cyfnod yr adroddiad hwn, nid oes galwr wedi ceisio cyfathrebu â'r Weinyddiaeth Gyfiawnder yn Gymraeg. Hefyd, yn ystod y cyfnod hwn, ni dderbyniodd y Weinyddiaeth Gyfiawnder unrhyw gwynion am y ffaith nad oes dewis Cymraeg mwy ffurfiol.

Digwyddiadau

Meini prawf llwyddiant:

e) Dim cwynion ynghylch methu â hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg neu ddarparu cyfieithiadau Cymraeg mewn digwyddiadau yng Nghymru.

Ceir arweiniad ar fewnwyd y Weinyddiaeth Gyfiawnder i helpu staff i nodi anghenion cyfieithu a chyfleusterau ar gyfer cyfarfodydd a digwyddiadau sy'n cynnwys y cyhoedd yng Nghymru. Er nad yw'r MoJ yn cadw cofnodion canolog o ddigwyddiadau a gynhelir ar draws ei fusnes mewn perthynas â chyfarfodydd yng Nghymru lle gwnaed trefniadau penodol i hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg, nid ydym wedi derbyn unrhyw gwynion am fethu â hwyluso cyfarfodydd yn Gymraeg.

Hunaniaeth gorfforaethol

Meini prawf llwyddiant:

f) Cysondeb yn y ffordd y mae'r iaith Gymraeg yn cael ei defnyddio.

Yn ystod cyfnod yr adroddiad hwn, mae Tîm Cyfathrebu Corfforaethol y Weinyddiaeth Gyfiawnder wedi bod yn gweithredu fel arfer o ran gweithgareddau sy'n ymwneud â'r Gymraeg. Mae meysydd busnes y Weinyddiaeth Gyfiawnder y mae angen eu cyfieithu yn Gymraeg yn cael eu cyfeirio at Uned Iaith Gymraeg GLITEF neu [thebigword](#) gan dîm dylunio canolog y Weinyddiaeth - design102. Mae canllawiau brand y Weinyddiaeth Gyfiawnder yn rhoi cyngor ar ddefnyddio fersiynau Cymraeg a dwyieithog o logo'r Weinyddiaeth Gyfiawnder.

Cyhoeddiadau a ffurflenni

Meini prawf llwyddiant:

- a) Cysondeb yn y ffordd y mae'r Gymraeg yn cael ei defnyddio.*
- b) Mae pob dogfen sy'n cael ei llunio yn Gymraeg ac yn Saesneg yn cael ei llunio i'r un safon, gan ddilyn yr un amserlen pan fo'r dyddiadau cau yn caniatáu hynny.*

Mae'r MoJ wedi mabwysiadu'r egwyddor, wrth gynnal busnes cyhoeddus yng Nghymru, y bydd yn trin y Gymraeg a'r Saesneg ar y sail eu bod yn gyfartal. Wrth gyhoeddi deunyddiau, mae ein tîm dylunio yn cadw at broses weithredu ac yn gweithio'n agos gydag Uned yr Iaith Gymraeg GLITEF, gan alluogi fformatio a chyhoeddi dogfennau yn Gymraeg a Saesneg ar yr un pryd ac i'r un safon.

Oherwydd cadarnhau pethau yn hwyr a newidiadau rheolaidd munud olaf ac ailadrodd rhai dogfennau Saesneg, nid yw bob amser yn bosibl cynhyrchu fersiynau Cymraeg a Saesneg ar yr un pryd. Mewn achosion o'r fath, caiff y fersiwn Gymraeg ei chyhoeddi cyn gynted â phosibl wedi hynny (o fewn 10 diwrnod gwaith o dan ein Cynllun Iaith Gymraeg). Bydd pob dogfen sy'n cael ei llunio yn Gymraeg ac yn Saesneg yn cael ei llunio i'r un safon.

Uned Iaith Gymraeg GLITEF

Uned Iaith Gymraeg GLITEF (WLU) sy'n gwneud y rhan fwyaf o'n cyfieithiadau corfforaethol. Rhwng 1 Ebrill 2024 a 31 Mawrth 2025 cyfieithodd yr Uned a [thebigword](#) 69 o ddogfennau corfforaethol ar gyfer Pencadlys y Weinyddiaeth Gyfiawnder am gost o £25,468.37.

Datganiadau i'r wasg, ymgyrchoedd cyhoeddusrwydd a hysbysebu, hysbysiadau swyddogol a chyhoeddus

Meini prawf llwyddiant:

- a) Cysondeb yn y ffordd y mae'r Gymraeg yn cael ei defnyddio.

HMPPS in Wales / HMPPS yng Nghymru (@HMPPSCymru) / X yw sianel swyddogol HMPPS yng Nghymru gyda llawer o gynnwys Cymraeg.

Mae GLITEF yn gyfrifol am lawer o gynnwys yr MoJ ar GOV.UK. Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EF - GOV.UK (www.gov.uk). Mae GLITEF yn cyfieithu popeth sy'n berthnasol i Gymru neu'r iaith Gymraeg, er enghraifft newyddion, blogiau a chanllawiau neu gyhoeddiadau lle mae angen gan ddefnyddwyr.

Gwasanaethau digidol, gwefan a gwybodaeth

Meini prawf llwyddiant:

- a) Llai o gwynion yn ymwneud â diffyg deunydd Cymraeg ar gyfer dogfennau corfforaethol perthnasol.
b) Argaeledd deunydd Cymraeg priodol ar gyfer ein polisïau a'n cyhoeddiadau.
c) Systemau TG y Weinyddiaeth Gyfiawnder yn cynnwys galluedd Cymraeg.
d) Paratoi fersiwn Gymraeg o'n tudalen hafan ar GOV.UK.

Mae'r Weinyddiaeth Gyfiawnder yn gyfrifol am benderfynu pa gynnwys 'adrannol a pholisi' sydd angen ei gyfieithu ar GOV.UK; trefnu cyfieithu o ansawdd uchel; a sicrhau bod y cynnwys Cymraeg yn gywir ac yn gyfoes.

Mae tudalen lanio Gymraeg y Weinyddiaeth Gyfiawnder ar ein gwefan ar gael yma: <https://www.gov.uk/government/organisations/ministry-of-justice.cy>. Rydym wedi parhau i gadw'r holl gynnwys Cymraeg, gan gynnwys ar ein tudalennau corfforaethol cysylltiedig, yn gywir ac yn gyfredol.

Er mwyn gwneud cyhoeddiadau Cymraeg yn fwy hygyrch ac yn haws dod o hyd iddynt, mae gan y fersiwn Gymraeg ei thudalen ei hun, yn hytrach nag ychwanegu dogfen Gymraeg at dudalen gynnwys Saesneg.

Mae gennym hefyd frand iaith Gymraeg ar ddeunyddiau ysgrifennu, adroddiadau, logos a chyfathrebiadau electronig i'w ddefnyddio yn ôl yr angen.

Mae Technoleg y Weinyddiaeth Gyfiawnder yn arddel y safbwynt canlynol ar ddefnyddio'r Gymraeg:

- wrth inni ddatblygu a chyflwyno cynnyrch a systemau TG newydd neu ddiweddarau hen rai, byddwn yn asesu'r gofynion ieithyddol yng nghyswllt gwasanaethau a ddarperir i'r cyhoedd yng Nghymru;
- byddwn yn hyrwyddo a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg cyn belled ag y bo'n briodol i'r amgylchiadau ac yn rhesymol ymarferol;
- pan fyddwn yn datblygu neu'n caffael systemau Gwasanaeth Digidol a Thechnoleg y Weinyddiaeth Gyfiawnder, byddwn yn ystyried Canllawiau a Safonau Comisiynydd y Gymraeg ar Feddalwedd Dwyieithog;
- y maes busnes perthnasol sy'n gyfrifol am gynnwys llwyfannau TG (yn hytrach na'r dechnoleg gysylltiedig).

Mae'r egwyddorion hyn yn berthnasol pryd bynnag y bydd y Weinyddiaeth Gyfiawnder yn symud at gontractau newydd. Mae Gwasanaeth Digidol a Thechnoleg y Weinyddiaeth bob amser yn barod i ystyried unrhyw ofynion penodol sydd gan yr Uned Iaith Gymraeg.

Gwasanaethau a ddarperir ar ran y Weinyddiaeth Gyfiawnder gan bartïon eraill

Meini prawf llwyddiant:

Bod staff yn ymwybodol o'r trefniadau i gynnwys ystyriaeth o'r Gymraeg mewn cytundebau contract â thrydydd bartïon.

Mae telerau ac amodau contract safonol cyfredol y Weinyddiaeth Gyfiawnder yn cynnwys cymalau sy'n mynnu bod cyflenwyr yn cydymffurfio â Deddf yr Iaith Gymraeg 1993 a'r Cynllun Iaith Gymraeg 'yn union fel petai ef ei hun yw'r Awdurdod'. Dyma rai enghreifftiau:

Gwasanaethau Asiantaeth Gorfodi Gymeradwy

(Mae'r contract hwn wedi'i dorri lawr i sawl lot. Mae Lot 7 yn cyfeirio at Gymru a Lot 8 yn cynnwys darparwr eilaidd i Lot 7). Mae'r gwasanaethau yn cefnogi cydymffurfiaeth GLITEF a gwaith gorfodi sy'n sicrhau bod cosbau ariannol, yn ogystal â chosbau eraill di-garchar yn cael eu casglu a'u cwblhau. Mae'r contract yn cefnogi darpariaeth prosesau gorfodi cyson ac effeithlon ar draws Cymru a Lloegr. Mae'r Awdurdod yn ei gwneud yn ofynnol i'r cyflenwr sicrhau bod y gwasanaeth yn hygyrch i, ac yn ddealladwy gan, ddiffynyddion lle mai Cymraeg yw eu dewis iaith.

Gwasanaethau Manwerthu'r Carchar

Fel rhan o'r cytundeb gyda'r cyflenwr, darperir ffurflenni archeb yn y Gymraeg fel rhan o wasanaethau dan gontract ble bo'r angen.

Desg Gwasanaeth Digidol MoJ

Darperir cyfathrebu, yn ysgrifenedig ac ar lafar yn y Gymraeg a'r Saesneg, yn ôl dewis y defnyddiwr.

Gwasanaethau Casglu Dyledion a Gorfodaeth

Mae'r gwasanaeth yn cynnwys holl Lysoedd y Goron yng Nghymru a Lloegr. Mae'r cyflenwr yn gyfrifol am hyrwyddo darpariaeth o wasanaethau casglu dyledion a gorfodaeth yn Gymraeg lle bo'r angen. Mae'r Awdurdod yn ei gwneud yn ofynnol i'r cyflenwr sicrhau bod y gwasanaethau'n hygyrch i, ac yn ddealladwy gan, ddiffynyddion lle mae Cymraeg yw eu dewis iaith. Caiff cydymffurfiaeth ei fonitro drwy gyfarfodydd rheoli contractau a gefnogir gan ddata ar y defnydd o'r cynllun.

Gwasanaethau Riportio a Thrawsgrifio yn y Llys

Mae trawsgrifio gwrandawiadau mewn llysoedd neu dribiwnlysoedd yn cynnwys ar-lein, wyneb yn wyneb, ac amser real. Mae darparu gwasanaethau Cymraeg yn rhan o'r contract. Os bydd unigolyn yn gofyn am gael ei dreial yn Gymraeg, bydd y trawsgrifiad yn cael ei wneud yn Gymraeg am yr un gost â'r Saesneg.

Gwasanaethau i Deuluoedd (HMPPS Caerdydd)

Mae'r cyflenwr (G4S) yn darparu ystod ddiwylliannol amrywiol o ddarpariaethau, megis deunyddiau darllen mewn gwahanol ieithoedd. Darperir gwybodaeth yn Gymraeg, Saesneg ac mewn ieithoedd ychwanegol ar gais (e.e. os oes angen penodol o fewn y boblogaeth o ran demograffig) i alluogi mynediad cyfartal. Mae'r Uwch Reolwr (Gweithredol) ar gyfer G4S yn siaradwr Cymraeg iaith gyntaf ac mae'n gyfrifol am staff y tri sefydliad carchardai yng Nghymru (Caerdydd, Brynbuga a Phrescoed).

Gwasanaethau leithoedd a Siaredir (Lot 1)

Mae'r contract gydag un cyflenwr, thebigword. Pwrpas y contract yw caniatáu i awdurdodau'r Weinyddiaeth Gyfiawnder ofyn i weithwyr ieithoedd proffesiynol fynychu trefniadau a chyfieithu. Mae'r Gymraeg yn un o'r ieithoedd a ddarperir o dan y contract hwn ac mae wedi'i chynnwys ers dechrau'r gweithgaredd cyrchu.

Dyrannu grantiau

Meini prawf llwyddiant:

Caiff grantiau eu dyfarnu yn unol â'r ymrwymadau a wnaed yn y Cynllun

Disgwylir i unrhyw sefydliad sy'n ymgeisio am grant ar gyfer gweithgareddau sy'n cynnwys cyflenwi gwasanaethau i bobl yng Nghymru ymdrin yn eu ceisiadau, lle bo hynny'n briodol, â sut y bwriadant ddarparu'r gwasanaethau hynny yn y Gymraeg yn ogystal ag yn Saesneg. Yna bydd hyn yn cael ei gynnwys fel un o'r amodau cyllido.

Er mwyn sicrhau bod gennym drefniadau llywodraethu cadarn a bod gwariant grant yn sicrhau gwerth am arian, sefydlodd y Weinyddiaeth Gyfiawnder swyddogaeth her, y Panel Herio a Sicrhau Grantiau. Mae'r Panel yn rhan annatod o lywodraethu grantiau a gwneud penderfyniadau ariannol ac fe'i mabwysiadwyd gan Swyddfa'r Cabinet fel arfer gorau.

Mae'r timau grant yn goruchwyllo'r broses ar gyfer dyrannu grantiau yn eu hardaloedd, gan gynnwys y swm cyffredinol sydd ar gael a sicrhau bod y grantiau'n cyd-fynd â blaenoriaethau strategol y Weinyddiaeth Gyfiawnder. Mae cystadlaethau yn cael eu hysbysebu ar wasanaeth 'Find a Grant' y llywodraeth ac yn cael eu cynnal trwy borth e-dendro Jaggaer, y gellir cael mynediad ato gan unrhyw gyflenwr cofrestredig. Er mwyn helpu i roi gwybod i ddarpar gynigwyr, bydd y ddogfen ddisgrifio sy'n cyd-fynd â phob hysbyseb yn nodi a fydd ystyriaethau Deddf yr Iaith Gymraeg yn berthnasol, a phryd. Pan fydd yn derbyn y grant, ac os yw'n briodol, bydd derbynnydd y grant yn cael gwybod am ofynion y Weinyddiaeth Gyfiawnder y disgwylir iddo gydymffurfio â hwy, gan gynnwys pan fydd Cynllun Iaith Gymraeg perthnasol y Weinyddiaeth Gyfiawnder neu Wasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Fawrhydi yn rhoi gofynion perthnasol Deddf yr Iaith Gymraeg ar waith.

Defnyddir grantiau HMPPS i gefnogi parhad grantiau strategol, gwasanaethau prawf a grantiau arloesi sy'n cyfrannu at nodau eang HMPPS a blaenoriaethau penodol. Cafodd grantiau HMPPS eu hysbysebu i bob sefydliad Gwirfoddol, Cymunedol a Menter Gymdeithasol (VCSE) yng Nghymru a Lloegr. Roedd y sawl a ddyfarnwyd yng Nghymru yn gyfanswm o £3.1miliwn.

Ar gyfer 2024-2025, mae'r Uned Comisiynu a Gweithredu Dioddefwyr a Thystion wedi rhoi grantiau o £8.6m i dderbynwyr yng Nghymru, i ddarparu gwasanaethau cymorth i ddioddefwyr troseddau.

Ar gyfer 2024-2025, rhoddodd y Sector Cymuned Menywod grantiau hyd at £347,872 i sefydliadau yng Nghymru.

NB. Roedd adroddiad llynedd yn nodi ar gyfer 2023-2024 rhoddodd y Sector Cymuned Menywod grantiau hyd at £755,605.59 i dri sefydliad yng Nghymru am gostau craidd, roedd hwn yn wall gan mai £755,605.59 oedd y cyfanswm i'r tri sefydliad am y cyfnod 2022 i 2025. Y cyfanswm a roddwyd i'r tri sefydliad yng Nghymru ar gyfer 2023-2024 oedd £347,872. Rhoddwyd yr un swm i'r tri sefydliad ar gyfer 2024-2025.

4. Gweithredu, monitro ac adrodd

Meini prawf llwyddiant:

- a) *Polisiau, mentrau a gwasanaethau i fod yn gyson â'r ymrwymïadau a wnaed yn y Cynllun Iaith Gymraeg*
- b) *Grŵp Cydlynwyr y Gymraeg y Weinyddiaeth Gyfiawnder wedi'i ehangu ac yn cyfarfod ddwywaith y flwyddyn o leiaf, gyda'r aelodau'n rhyngweithio'n rhithiol.*
- c) *Trefniadau yn eu lle i fonitro ac adrodd ar gynnydd cyrff y Weinyddiaeth Gyfiawnder, a restrir yn Atodiad A, o ran gweithredu Cynllun Iaith Gymraeg y Weinyddiaeth Gyfiawnder.*
- d) *Mae gan staff drefniadau yn eu lle i fonitro p'un a yw darparwyr gwasanaethau'n cydymffurfio â threfniadau iaith Gymraeg sydd wedi'u cynnwys mewn cytundebau contractau.*

Roedd Cydlynnydd Cynllun Iaith Gymraeg y Weinyddiaeth Gyfiawnder yn parhau i fod yn gyfrifol am ddatblygu a gweithredu Cynllun yr MoJ. Un elfen hollbwysig o'r rôl yw sicrhau bod Cynllun y Weinyddiaeth Gyfiawnder yn cael ei ddatblygu a'i roi ar waith yn briodol ar draws amrywiol feysydd busnes corfforaethol y Weinyddiaeth. Mae hynny'n cynnwys rhoi cyngor a chyfarwyddyd ac ymateb i geisiadau am wybodaeth neu roi eglurhad ynghylch polisi ac arferion y Weinyddiaeth Gyfiawnder mewn perthynas â'r iaith Gymraeg. Ni dderbyniodd Cydlynnydd Cynllun yr MoJ unrhyw gwynion ffurfiol ynglŷn â gweithrediad y Cynllun yn ystod y cyfnod adrodd.

Mae'r MoJ yn parhau i weithredu Grŵp Cydlynwyr Iaith Gymraeg ehangach o gysylltiadau sy'n gweithredu fel Cydlynwyr yr Iaith Gymraeg ar draws ein ardaloedd busnes allweddol. Mae'r grŵp yn cyfarfod ddwywaith y flwyddyn ar ffurf hybrid.

Mae cylch gwaith y grŵp yn cynnwys y canlynol:

- canolbwyntio ar faterion sy'n dod i'r amlwg sy'n gysylltiedig â chyflwyno Cynllun Iaith Gymraeg Y Weinyddiaeth Gyfiawnder;
- rhannu enghreifftiau o arferion gorau i helpu i godi ymwybyddiaeth a rhannu syniadau;
- darparu fforwm i aelodau allu trafod a datrys materion sy'n dod i'r amlwg mewn perthynas â'r Gymraeg; a
- cynnig cyd gefnogaeth i Gydlynwyr Iaith Gymraeg y Weinyddiaeth Gyfiawnder a helpu i lywio cyfeiriad y polisi iaith Gymraeg a dulliau llywodraethu yn y dyfodol ar draws ein Hasiantaethau Gweithredol.

Mae'r aelodau'n defnyddio'r Grŵp i rannu gwybodaeth a syniadau er mwyn gwella'r broses o wneud penderfyniadau. Os oes pryderon neu gamddealltwriaeth ynghylch polisi ac ymarfer yr iaith Gymraeg, bydd y Cydlynwyr yn mynd ar ôl y rhain ar gyfer aelodau a staff perthnasol mewn modd cymesur er mwyn sicrhau datrysiaid boddhaol.

Yng nghyfarfod mis Medi 2024, gwnaethom drafod Prawf Effaith ar y Gymraeg y Weinyddiaeth Gyfiawnder, datblygiadau digidol GLITEF a chroesawyd siaradwr gwadd o Swyddfa'r Comisiynydd Iaith a roddodd ddiweddariad i ni ar Adroddiad Sicrwydd diweddaraf Swyddfa Comisiynydd y Gymraeg.

Yng nghyfarfod mis Mawrth 2025, gwnaethom drafod polisi'r crwner, contract iaith Gymraeg y Weinyddiaeth Gyfiawnder a Chyfyngwyr Cofrestredig.

Rhwng cyfarfodydd, mae gan y Grŵp fforwm drafod rithiol *ad hoc* ar faterion sy'n ymwneud â'r iaith Gymraeg, i rannu cyngor rhwng cydweithwyr perthnasol y Weinyddiaeth Gyfiawnder, yn enwedig ynghylch pryd y bydd angen gwasanaethau cyfieithu o bosibl.



© Hawlfraint y Goron 2025

Trwyddedwyd y cyhoeddiad hwn dan delerau Trwydded Llywodraeth Agored fersiwn 3.0 ac eithrio lle nodir yn wahanol. I weld y drwydded hon ewch i nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3

Lle rydym wedi nodi bod unrhyw wybodaeth dan hawlfraint trydydd parti, bydd angen i chi gael caniatâd gan ddeiliaid yr hawlfraint dan sylw.

